**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**DYDD IAU, 19 RHAGFYR 2019**

**BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer, P.D.Richards a/ac P.A.Rees

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, K.Warren, J.Hodges, J.Woodman-Ralph a/ac S.Curran

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd A.R.Lockyer yn cael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDD**

Cafwyd datganiad budd gan y Cynghorydd canlynol ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P.D.Richards | Par: Trefniadau Contract ar gyfer y Gwasanaeth Mân Addasiadau am ei fod yn aelod o fwrdd Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin Cyf. / Care and Repair Western Bay Ltd. |

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Y dylid nodi'r blaenraglen waith ar gyfer 2019/20.

5. **AILFODELU AC AIL-LEOLI'R GWASANAETHAU DYDD ANGHENION CYMHLETH**

Rhoddwyd diwygiad llafar i'r cynghorwyr yn y cyfarfod, a nododd y dylai'r argymhelliad gynnwys cau Abbeyview fel gwasanaeth dydd ond y byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio i gynnal gwasanaethau eraill yn y dyfodol.

**Penderfyniadau:**

Y dylid cymeradwyo Opsiwn 2 fel a ganlyn:

1. Y dylid cau safle Abbeyview fel gwasanaeth dydd;

2. Y dylid darparu'r Gwasanaethau Dydd Anghenion Cymhleth ym Mrynamlwg, Trem y Môr a Thŷ Rhodes;

3. Y dylai anghenion y defnyddwyr gwasanaeth gael eu diwallu gan y ddarpariaeth gwasanaeth dydd sydd fwyaf addas i'w hanghenion ac i ateb eu deilliannau personol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I alluogi'r Cyngor i:

1. Ddatblygu gwasanaethau yn unol â gofynion penodol pobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

2. Gwella a dyfnhau ansawdd cyflwyno gwasanaethau.

3. Datblygu gwasanaethau cynaliadwy gyda llwybrau clir.

4. Galluogi'r awdurdod i allu darparu gwasanaeth i ddiwallu anghenion y bobl hynny sydd wedi cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistiaeth, anableddau dysgu ac ymddygiad heriol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 6. POLISI TALIADAU UNIONGYRCHOL

**Penderfyniad:**

Y dylid cymeradwyo'r Polisi Taliadau Uniongyrchol fel y nodir yn Atodiadau 1 a 2 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I gydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion) a Rhan 4 & 5 o'r Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol).

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 7. POLISI DYRANNU SEIBIANT Y GWASANAETHAU I OEDOLION

**Penderfyniad:**

Y dylid cymeradwyo gweithredu Polisi Dyrannu Seibiant y Gwasanaethau i Oedolion fel y nodir yn Atodiadau 1 a 2 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

I alluogi'r Cyngor i gymryd i ystyriaeth yr adnoddau gofal cymdeithasol a'r gofal a'r cymorth arall sydd ar gael i unigolion wrth ymgymryd ag asesiad neu ailasesiad o anghenion gofalwyr. I sicrhau bod ystod gynaliadwy o wasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd da ar gael i oedolion er mwyn diwallu anghenion dinasyddion mwyaf agored i niwed Castell-nedd Port Talbot. Hefyd, i gyfrannu at yr arbedion cyllidebol a nodwyd ym Mlaengynllun Ariannol y Cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad**

Ar 10 Mehefin 2019 cymeradwyodd y cynghorwyr ymgynghoriad cyhoeddus o 90 diwrnod mewn perthynas â'r Polisi. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 17 Mehefin a 15 Medi 2019, a chafwyd nifer o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn wedi helpu i gadarnhau cynnwys drafft terfynol y Polisi a luniwyd gan swyddog.

## 8. GWASANAETHAU OEDOLION, PLANT A PHOBL IFANC - ADRODDIAD PERFFORMIAD AR GYFER YR 2IL CHWARTER (EBRILL 19 - MEDI 19)

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**Penderfyniad:**

Y dylid eithrio'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, oherwydd eu bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd ym Mharagraffau 13 a 14 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 10. TREFNIADAU CONTRACT AR GYFER Y GWASANAETH MÂN ADDASIADAU

Ailnododd y Cynghorydd P.D.Richards ei fudd yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod. Camodd y Cynghorydd P.A.Rees i'r adwy ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniad:**

Y dylid caniatáu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i fynd ati i sefydlu contract gyda Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin Cyf./Care and Repair Western Bay Ltd ar gyfer darparu Gwasanaeth Mân Addasiadau tan 31 Mawrth 2021, gydag opsiwn i ymestyn y contract tan 31 Mawrth 2022 fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I sicrhau bod fframwaith cyfreithiol rwymol yn ei le rhwng y partïon.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **ADRODDIAD Y RHEOLWR AR GARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE**

Dychwelodd y Cynghorydd P.D.Richards i'r cyfarfod ac ymddieithriodd y Cynghorydd P.A.Rees o weddill y cyfarfod.

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

12. **DEDDF RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2016 RISCA 2016**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**